

DECHRAU
DARLLEN
GAN CERIDWEN GRUFFYDD

I

HUGHES AN DAB, CYHOEDDWR
GWAEG Y DWYSOGAETH, WRECSAM

113
DECHRAU DARLLEN
GAN CERIDWEN GRUFFYDD

Y. LLYFR CYNTAF

CAERDYDD
HUGHES A'I FAB
CYHOEDDWYR



tân



mat



1. tân a mat.

2. glo ar y tân.



ci



glo



3. ci ar y mat.



tŷ



1. tân yn y tŷ.

2. glo ar y tân.

3. glo ar y tân yn
y tŷ.



glo



tân



iâr



cae




1. iâr yn y cae.

2. oen yn y cae.

3. iâr ac oen yn y cae.



oen



cae



plu



1. Y mae oen yn y cae.
2. Y mae iâr yn y cae.
3. Cae i oen.
4. Cae i iâr.
5. Y mae plu ar yr iâr yn y cae.

cae

ae
 cae
 Cae
 gae
 mae



oen

mae'n
mae'r

oen

oe
oen
oer
oes
oed



1. Y mae'n oer.
2. A oes glo ar y tân?
3. Oes, y mae glo ar y tân.
4. Y mae'n oer i oen yn y cae.



cot




Sam

Sam
am



1. Y mae'n oer.
2. Y mae Sam yn oer.
3. Y mae cot am Sam yn y tŷ.
4. Y mae cot am yr oen yn y cae.
5. A oes cot am y ci? Oes.



am
mam
fam

1. Y mae'r oen yn y cae.
2. Y mae mam yr oen yn y cae.
3. O mam! Y mae'n oer.
4. A oes cot am yr oen?
Oes.
5. A oes cot am fam yr oen?
Oes.



cyw



plu

ac

plu
plu
Plu
blu

1. Plu ar y cyw.
2. Plu ar yr iâr.
3. Plu ar y cyw ac ar fam y cyw.
4. Cot o blu ar yr iâr ac ar y cyw.




cyw

cyw

yw
cyw
gyw
byw
fyw

Nid yno.



1. Y mae oen yn byw yn y cae.
2. Y mae mam yr oen yn byw yn y cae.
3. Nid yw ci yn byw yn y cae.
4. Yn y tŷ y mae ci Sam.



iâr



oen



ci

Iâr	oen	ci
Un,	dau,	tri.



dau
dau
au
Dau

1. A oes iâr yn y cae?
2. Oes, un iâr ac un cyw.
3. Dau oen yn y cae.
4. Nid yw mam yr oen yno.
5. A oes ci yn y tŷ? Oes, tri.



Nan



pêl

Nan
 Nan
 an
 gan
 man
 fan



1. Y mae pêl gan Nan.
2. Y mae ci gan Sam.
3. Nid yw Nan yn y tŷ.
Y mae yn y cae.
4. Nan a Sam a'r ci a'r iâr
yn y cae.



Sam



tad Sam



y cyw hwn



yr iâr hon



1. Tŷ tad Sam yw hwn.
2. Yn y tŷ hwn y mae Sam yn byw.
3. Nan yw hon ar y mat.
4. Dau ar y mat, y ci a Nan.
5. Nid ci Sam yw hwn. Ci Nan yw.



Nan



Nel




oen du

Nel
Nel
el
fel
wel



iâr ddu



1. Un du yw yr oen hwn.
2. Un ddu yw mam yr oen.
3. Y mae iâr ddu yn y cae.
4. Iâr Nel yw hon.
5. Nid yw cyw yr iâr yn ddu.
6. Y mae'r oen fel ei fam
7. Nid yw'r cyw fel ei fam.



wy



pig



mat
mat
at

1. Wy yr iâr yw hwn.
2. Y mae cyw yn yr wy.
3. Pig y cyw yw hwn.
4. Plu yw cot y cyw.
5. Nid oes blu ar y cyw yn yr wy.
6. Y mae pig gan y cyw yn yr wy.

wy
dwy
pwy
Pwy
bwy
mwy
fwy
hwy

na
nag



llaw



llo



Nel



Sal

Sal
Sal
al
dal

ei



1. Y mae llaw Sal ar y llo.
2. Nid llo Sal yw hwn. Llo Sam yw hwn.
3. Y mae Sam yn dal ei law at y tân.
4. Dwy law gan Sam a dwy law gan Sal.
5. Y mae llaw Sam yn fwy nag un Sal.



ffon

ci
Ci
chi
gi
ti
fi
mi
ni



to

to
To
do
ho
Ho
llo
lo



1. Y mae to ar y tŷ.
2. Y mae gan Sam ffon.
3. Nid yw hi yn ei law.
4. Y mae un ffon ar do y tŷ.
5. Ffon Sam yw hi.
6. Ho! ho! ho! Ffon Sam ar do y tŷ.



ebe

ôl

1. Daw Sal a Nel at y tŷ.
2. “Y mae ffon ar y to,” ebe Nel.
3. “Ffon pwy yw hon?” ebe Sal.
4. “O, ffon Sam yw hi,” ebe Nel.
5. “Wel! wel! Ni ddaw y ffon yn ôl at Sam.”



DECHRAU
DARLLEN
GAN CERIDWEN GRUFFYDD

II

HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR
GWASG Y DYWYSOGAETH, WRECSAM

114
DECHRAU DARLLEN
GAN CERIDWEN GRUFFYDD


YR AIL LYFR

CAERDYDD
HUGHES A'I FAB
CYHOEDDWYR



llaw		
aw	wy	cae
llaw	bwy	cae
law	bwyd	cael
baw	fwyd	gael
daw	llwyd	chael
ddaw	lwyd	

1. Daw llo at y tŷ i gael bwyd.
2. Llwyd yw'r tŷ a du yw'r llo.
3. Y mae un llo yn cael bwyd a thri llo yn y cae.
4. Gan fam Nan y mae'r llo yn cael bwyd.
5. Ni ddaw Nan ato.
6. Y mae hi a Sam yn cael bwyd yn y tŷ.
7. Nid yw'n oer yn y tŷ. Y mae tân yno.



tŷ	sy	dy
tŷ	sydd	dyn
dŷ	dydd	ddyn
sy	ddydd	Dyn
	bydd	
	fydd	

yna

Bow wow

1. Daw dyn at y tŷ.
2. Ffon sydd yn ei law.
3. Y mae ci ar y mat.
4. "Bow-wow!" ebe'r ci.
"Pwy sydd yna?"
5. "Dyn â ffon yn ei law,"
ebe tad Nan.
6. "O! O!" ebe'r ci. "Af
fi'n ôl i'r cae."
7. Nid ci i gael y ffon yw
hwn.



sach



cawr



yd




adar

cawr
 awr
 cawr
 mawr
 fawr
 llawr
 lawr

ofn.

1. Dyn mawr mawr yw'r cawr.
2. Y mae ar Sam a Nan ei ofn.
3. Ni ddaw Sam o'r tŷ pan fydd y cawr yn y cae.
4. Y mae gan y cawr ffon fawr a sach.
5. "Pwy sydd yn y tŷ?" ebe'r cawr. "A yw Sam a Nan yno?"
6. "O, mam!"

Ie



sach
sach
bach
fach



ci da



ci drwg

8

1. Y mae gan y dyn yd yn y cae.
2. "Yd pwy yw hwn?" ebe'r adar bach.
3. Yd tad Nan yw hwn.
4. "Bwyd da yw yd," eb un o'r adar bach.
5. Ie, y mae'n fwyd da i'r dyn mawr ac i'r adar bach.
6. "Adar drwg sy'n cael yr yd o'r cae," ebe tad Nan.
7. "Nid i'r adar y mae'r bwyd yma ond i Sam a Nan."

9



awr	awn	yd
aw	cawn	byd
awr	chawn	fyd
awn	gawn	gyd
Awn	iawn	hyd
neb	Eu	ef.

1. "Awn i'r cae yd i gael bwyd," ebe'r adar bach.
2. Nid yw'r dyn yno.
3. "Awn i gyd i'r cae," ebe hwy.
4. Y mae ofn y dyn mawr ar un o'r adar bach.
5. "Pan ddaw'r dyn awn yn ôl," ebe hwy. "Yna ni bydd neb yn y cae."
6. Nid oes ar Sam a Nan ofn y dyn. Eu tad yw ef.



pren.



dail.



afal

wy
wyf
wyt
wyn

piau
biau

1. Y mae pren yn y cae.
2. Pren afal yw hwn.
3. Y mae dail ac afal ar y pren.
4. Bwyd da yw afal i adar bach.
5. Daw un o'r adar i gael bwyd at y pren hwn.
6. Nid yw'r dyn am i'r adar gael afal yn fwyd.
7. "Fi biau'r afal," eb ef, "nid yr adar bach."



pigo



canu




mynd



wylo

Af
af
caf
haf

pen
ben



1. Y mae'r adar bach yn canu.
2. Nid yw'r adar i gyd yn canu. Y mae un yn pigo.
3. Pigo afal y mae.
4. "Af fi i ben y pren i gael afal," ebe Sam.
5. "Os yw Sam yn mynd i ben y pren awn ni'n ôl," ebe'r adar.



cath



moch



babi



crud

yna
dyna
Dyna

rhoi



1. Dyna fabi bach yn y crud ag afal yn ei law.
2. Daw cath ddu ato.
3. Yn yr haf bydd ef a'i fam yn mynd i'r cae i roi bwyd i'r moch.
4. Nid yw'r babi bach yn wylo pan ddaw'r moch ato.

wrth



hoff

1. Y mae crud y babi bach ar y mat wrth y tân.
2. Daw'r ci mawr at y crud.
3. Y mae'n hoff iawn o'r babi.
4. Cot ddu sydd gan y ci.
5. Dyna law y babi ar ei ben.

tyfu



mor

moch
moch
coch
goch
boch
foch

Mae gan y babi afal
Yn tyfu ar ei foch,
Ac nid yw'r afal ar y pren
Mor goch â hwn, mor goch.



rhos



bys



coes



nyth

nyth

nyth

syth

rhos

rhos

dos

Dos



1. Y mae pren rhos yn tyfu yn y cae mawr.
2. Y mae coes y rhos yn pigo bys Nan.
3. "Dos i gael afal yn lle rhos," ebe Sam. "Nid yw coes yr afal yn pigo."
4. Nid oes gan yr adar bach nyth ar y pren afal.



magu



caru



codi



agor

Dyma

tro
dro

1. Dyma mam yn magu ei babi.
2. Y mae mam yn caru ei babi bach.
3. Pan fydd y babi yn wylo bydd ei fam yn ei godi.
4. Nid yw ef yn caru bod yn y crud o hyd.
5. "Awn am dro i dŷ Nan," ebe mam.
6. "Dyma Nan yn agor i ni."
7. "Wel! dyma fabi bach da," ebe hi, a'i roi ar y mat.



af môr dŵr
braf Dŵr

rho mewn

1. Yn yr haf awn at y môr.
2. Y mae yno le braf iawn.

3. Dŵr mawr mawr yw'r môr.
4. "Dos i'r dŵr," ebe Nan wrth y babi.
5. "Na! na!" eber babi.
6. Ofn y môr sydd ar yr un bach.
7. "Nid yw'r dŵr mawr yn oer iawn," ebe Nan. "Rho dy law i mewn."
8. Yn awr y mae llaw fach y babi yn y môr mawr.



cefn rhai aros hin
gefn agos

1. Yn y nyth y bydd yr adar yn magu eu rhai bach.
2. Bydd y fam yn aros yno ar hyd y dydd a'r tad yn mynd i gael bwyd.

3. Daw â bwyd y fam a'r rhai bach i'r nyth.
4. Yn y cae y mae'r oen yn cael ei fagu.
5. Wrth y tan yn y tŷ y mae mam yn magu ei babi.
6. Nid yw'r oen yn mynd at y tân pan fydd yr hin yn oer.
7. Y mae ei got ef yn tyfu ar ei gefn.



coed



arth

llew

ew

tew

rhew

rew

mew



llew



eira

rhai

ai

tai

llai

mai

Mai

1. Mewn lle oer y mae'r arth yn byw.
2. Rhew ac eira sydd ar lawr yno.
3. Nid oes un dyn yn byw yn agos. Y mae'n rhy oer.
4. Yn y coed y mae'r llew yn byw. Nid yw ef yn hoff o fynd at y tai.
5. "Mew! mew!" ebe'r gath ddu. "Coed i rai, rhew i rai, tŷ a tân a mat i mi. Mew! mew."

coed
oed
goed
choed
boed
foed



dros

Dros mis Mai

1. Y mae Sam a Nan yn mynd am dro i'r coed.
2. Y mae Nan yn llai na Sam ac nid yw'n hoff iawn o'r coed.

3. "A oes llew yn y coed?" ebe hi.
4. "O, nac oes," ebe Sam. "Nid yw llew yn byw mor agos at y tai. Yn y coed mawr dros y môr y mae ef."
5. Bydd yr adar yn mynd dros y môr pan yw'r hin yn oer yma.
6. Pan ddaw mis Mai daw'r adar yn ôl i ganu i'r coed wrth ein tŷ ni.



gall
all

1. Dyma adar bach yr eira.
2. Pan fydd rhai yn mynd dros y môr bydd adar yr eira yn aros yma.
3. Ni all yr adar gael bwyd pan fydd eira ar lawr.
4. Dyna pam y mae Sam a Nan yn mynd â bwyd o'r tŷ.

**DECHRAU
DARLLEN**
GAN CERIDWEN GRUFFYDD

III


**HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWR
GWASC Y DYWYSOGAETH, WRBESAM**

11/5
DECHRAU DARLLEN

GAN CERIDWEN GRUFFYDD

Y TRYDYDD LLYFR

CAERDYDD
HUGHES A'I FAB
CYHOEDDWYR
1944



ch
Ch
CH

Hwch a chwech o foch,
Hwch yn galw'n groch,
"Soch, soch, soch, am fwyd i
gyd.
Moch bach gorau yn y byd."

1. Y mae gan dad Sam hwch a chwech o foch.
2. Bydd Sam a'i dad yn mynd â bwyd i'r moch bach.
3. "Bwyd i bwy yw hwn?" ebe'r hwch.
4. "Bwyd i'r moch a'u mam," ebe tad Sam.
5. "Soch, soch, soch." Dyma'r hwch yn galw ar y moch i gael bwyd.
6. "Chwi yw'r moch bach gorau yn y byd."



dd
Dd
DD

'Roedd Siân yr wŷydd yn addo
Nad âi i'r ardd i bigo ;
Yn addo'n ddewr, yn addo'n
dda,
Ond ddoe, 'roedd yno'n pigo ffa.

1. Gŵydd fawr dew oedd Siân.
Yr oedd hi'n hoff iawn o
gael bwyd.
2. "Ar y dŵr y mae dy fwyd
di," ebe Siws yr iâr ddu
wrth Siân yr wŷydd.
3. "Ie, ac nid wyf i am fynd
i'r ardd i bigo fel ti. Yr
wyf yn addo i Dan nad af."
4. Ond nid oedd Siân yn cael
bwyd wrth ei bodd ddoe.
5. Aeth i'r ardd i bigo ffa.



ff
Ff
FF

Mae Fflach yn ffoi rhag ffon y
gwas,
Yn ffoi i'r ffos, yn ffoi i'r das.
Ffei, ffei, rhoi ffon ar gi mor
gloff.
Ffei, ffei, mai Fflach yn gi bach
hoff.

1. Ar ffarm y mae Sam yn byw.
2. Un o gŵn y ffarm yw Fflach.
3. Y mae Fflach yn hen ac yn gloff.
4. Nid yw'n hoffi Dan y gwas am fod ffon yn ei law.
5. Bydd Fflach yn ffoi i'r ffos neu i'r das pan ddaw'r gwas at y tŷ.
6. Un hoff iawn yw'r ci cloff.



ng
Ng
NG

Mae'r llong yn bwrw angor,
Ding dong, ar noson oer.
Mae'r llong yn bwrw angor,
Yng ngolau gwan y lloer.

1. Dyma'r llong yn ôl o'r môr.
2. Y mae'n noson oer, a golau gwan sydd gan y lloer.
3. Ding dong! Yng ngolau gwan y lloer y mae'r dyn yn bwrw angor.
4. Yr angor sy'n dal y llong rhag mynd yn ôl i'r môr.



ll
Ll
LL

Mae llo y Llwyn yn llyfu,
Yn llyfu, llyfu, llyfu.
Mae ef yn llai na'r llo mawr
llwyd;
Ond llo y Llwyn sy'n llyfu.

1. Llo mawr llwyd sydd ar ffarm y Llwyn.
2. Ar ffarm Sam y mae llo bach.
3. "Y mae'r llo llwyd yn fwy na'th lo di, Sam."
4. "Ydyw, y mae fy llo i yn llai na'r llo llwyd. Ond fy llo i yw'r gorau."
5. "Ha! ha! Llo bach yn well na llo mawr!"
6. "Ie, y mae'n well am ei fod yn llyfu llaw, yn llyfu llaw pawb."



ph
Ph
PH

Iâr fach wen
A phoen yn ei phen;
Iâr fach ddu
A phoen yn ei phlu.

1. Y mae iâr fach wen ac iâr fach ddu ar ffarm y Llwyn.
2. Yr oedd gan yr iâr wen boen yn ei phen. Wedi taro ei phen yn y wal yr oedd hi.
3. A dyma beth od, yr oedd gan yr iâr ddu boen. Yn ei phlu yr oedd ei phoen hi.
4. Gwas bach y Llwyn oedd wedi tynnu ei phlu.
5. Ffei, ffei, yn tynnu ei phlu fel yna.



rh
Rh
RH

Rhewi, mae'n rhewi bob nos,
Rhewi, mae'n rhewi'n y Rhos.
Y rhew yn rhoi braw,
A Rhys o'r Tŷ Draw
Yn rhynnu, yn rhynnu bob
nos.

1. Yn y Rhos y mae Tŷ Draw,
a Rhys sy'n byw yno.
2. Y mae'r Rhos yn lle braf
yn yr haf. Ond yn y
gaeaf y mae'n rhewi yno.
3. Pan fydd Rhys Tŷ Draw yn
mynd i'w wely, y mae'n
rhynnu. Bydd ei fam yn
rhoi dillad arno, ond
rhynnu y bydd Rhys.
4. "O, mam, y mae'r rhew yn
rhoi braw i mi."



th
Th
TH

Un heb ei bath
Yw cath Tŷ Brith :
Aeth ddoe, ar daith i'r dre,
Heb droi i'r chwith,
Heb droi i'r dde.
Un heb ei bath yw hi.

1. Un od yw cath Tŷ Brith.
2. Nid yw byth yn aros wrth y tŷ fel rhyw gath arall. Mynd, mynd y mae hi o hyd.
3. Ddoe, aeth ar daith i'r dre.
4. Yr oedd ffordd yn troi ar y chwith. Nid aeth y gath y ffordd honno.
5. Yr oedd ffordd yn troi ar y dde. Nid aeth y gath y ffordd honno chwaith. Na, aeth hi'n syth i'r dre.
6. Un heb ei bath yw cath Tŷ Brith.



P
P

Papur, pupur, pop,
Popeth yn y siop.
Papur, pupur, pys,
Yn siop fach Poli Prys.

1. Y mae siop Poli Prys yn ymyl Tŷ Brith. Siop popeth ydyw.
2. Aeth Nel a Wil yno un bore.
3. "A oes pop yn y siop?" ebe Wil.
4. "Oes," ebe Poli Prys, "pum potel."
5. "A oes pys yn y siop?" ebe Nel.
6. "Oes," ebe Poli Prys. "A yw dy fam am gael pwys o'r pys gorau?"
7. Rhof y pop a'r pys mewn papur.



b
B

Bob yw babi Beti,
Ben yw babi Bili;
Bob a Bet
A Ben a Bil,
Bobl bach y maent yn swil.

1. Y mae Beti a Bili yn byw ar ben y bryn.
2. Y mae babi gan Beti, a babi gan Bili.
3. Un bach tlws yw Bob, babi Beti; ac un bach tlws yw Ben, babi Bili.
4. Y mae'r bobl fawr yn gwenu ar Bob a Ben.
5. Rhai bach swil iawn yw Bob a Bet, a Ben a Bil.



d
D

Dwy das wrth dŷ Dodo,
Dwy iâr yn dodwy yno.
Mae hi'n dweud mai ieir da
Sy'n dodwy wŷ i Dodo.

1. Tŷ ffarm yw tŷ Dodo.
2. Yn y cae wrth y tŷ y mae dwy das wair.
3. "Dodo," ebe Sam. "Y mae dwy iâr yn mynd at y das."
4. "Da iawn, wir. Dodwy dau wŷ y mae'r ieir yn y das."
5. "Ie, dau wŷ. Rho di un i Dai ac un i'w dad."
6. "Diolch yn fawr, Dodo."



ngh
Ngh
NGH

Y mae fy nghap yng ngheg fy
nghi,
Yng ngheg fy nghi, yng ngheg
fy nghi,
Y mae fy nghap yng ngheg fy
nghi,
Ac ni chaf fynd i'r ysgol.

1. Y mae mam Dai yn galw arno.
2. "Dai, Dai, y mae'n amser iti fynd i'r ysgol."
3. "Ydyw, mam. Ond sut y caf fy nghap? Y mae yng ngheg fy nghi."
4. "Yng ngheg dy gi, Dai?"
5. "Ie, mam, yng ngheg fy nghi yng nghoed Tŷ Brith."
6. "Dos ar ei ôl, Dai. Ni chei fynd i'r ysgol heb dy gap."



nh
Nh
NH

Fy nhrol, fy nhop, fy nhedi,
Ar lawr yn nhê fy mami.
Ond dyma lam a dyma naid,
A'r top yn troi yn nhê fy nhaid.

1. Y mae ein tŷ ni ar un ochr i'r ffordd a thŷ fy nhaid ar yr ochr arall.
2. Y mae fy nhedi, fy nhrol, fy nhop, yn hoffi bod ar lawr wrth y drws.
3. "Gwell iti droi'r top ar lawr yma," ebe mam.
4. Dyma fy nhop yn rhoi llam a naid dros y ffordd ac i dŷ fy nhaid.
5. "Dyma hwyl," ebe Taid.



mh
Mh
MH

“O! fy mhen, ac O! fy mhlw,
O! fy mhlant, mae'r pridd mor
ddu.”

O! fy mhig, ac O! fy mhen,”
Ebe Win, yr iâr fach wen.

1. Ym Mhen y Bryn y mae'r
iâr fach wen yn byw.
2. Y mae'r pridd yn ddu yno,
ac wrth grafu yr oedd yr
iâr wen yn mynd yn ddu.
3. “O! fy mhig!” ebe hi,
“y mae mor ddu.”
4. “O! fy mhlw! y maent yn
ddu.”
5. “O, fy mhen, y mae'n ddu.”
6. “Wel, wel, fy mhlant bach!
Y mae pob cyw yn ddu.”
7. “O fy mhig, fy mhlw, fy
mhen, fy mhlant!”

GEIRIAU

3.	bodd	9.	ydyw	rhyngu
Hwch	ffa	Llong	gweld	Rhys
chwech	Siws	dong	weld	braw
croch	Dan	ding		draw
chwi		Ding	13.	Draw
gorau	7.	golau	poen	gwely
galw	Fflach	ngolau	boen	wely
	ffoi	gwan	phoen	gaeaf
5.	ffarm	angor	taro	dillad
Siân	ffos	noson	tynnu	arno
gŵydd	Ffei	lloer	peth	
ŵydd	ffei	bwrw	beth	17.
gardd	rhag		phen	bath
ardd	tas	11.	phlu	Brith
addo	das	Llwyn		Aeth
dewr	cloff	llyfu	15.	aeth
ddewr	gloff	gwell	Rhewi	taith
ddoe	gwas	well	rhewi	daith

NEWYDD

chwaith	popeth	tlws	chaf	llam
chwith	pys	gwenu	ysgol	lam
byth	Prys		amser	hwyl
heb	pum	23.	sut	
troi	siop	Dodo	nghoed	29.
droi	Poli	dodwy	chei	mhig
dre	ymyl	dweud		mhlu
dde	bore	tas	27.	mhen
rhyw	Rhof	das	nhop	Mhen
arall		Dai	nbrol	mhlant
ffordd	21.	Diolch	nhedi	pridd
honno	Bob	gwair	nhaid	Win
heb	Beti	wair	Taid	wen
	Ben		paid	Bryn
19.	Bili	25.	ochr	maent
papur	Bobl	ngheg	hoffi	crafu
papur	bobl	nghap	drws	grafu
pop	bryn	nghi	Gwell	pob

I'R ATHRAWES

Ymgais yw'r trydydd llyfr hwn o'r gyfres DECHRAU DARLLEN i ddarparu ymarferiadau yn y llythrennau dwbl a'r llythrennau b,d,p, a brofodd yn fath dramgwydd i bob cenhedlaeth o blant. Ond, wrth geisio llunio'r gwersi gwelwyd fod yma gyfle i gyrraedd dau ddiben ynddynt—ffurfio grisiau i'r plant ddatblygu, o gam i gam, eu gallu i ddarllen, yn ôl dull y ddau lyfr cyntaf, ac ar yr un pryd, darparu rhigymau addas ar gyfer y gwaith llafar a ddylai ragflaenu gwersi darllen.

Yn yr arbrawf a wnaed dyma'r cynllun a gymerwyd:

- (1) Yr athrawes yn adrodd y rhigwm ddwywaith neu dair.
- (2) Y plant yn ei adrodd ar ei hôl.
- (3) Sgwrs am y rhigwm.
- (4) Dysgu'r rhigwm ar y cof, gan ofalu cael y seiniau a ail adroddir ynddo yn glir hyd yn oed pe bai raid gor-bwyso ychydig.
- (5) Adrodd stori'r rhigwm gan y plant.
(Caed ychwanegiadau diddorol gan rai ohonynt.)
- (6) Chwarae stori'r rhigwm. (Fel y gwelir, y mae rhai o'r rhigymau yn fwy addas na'i gilydd, e.g., "Hwch a chwech o foch.")
- (7) Printio'r rhigwm yn fras ar ddarn mawr o bapur, a'i osod ar y wal gyda darlun addas, a'i ddefnyddio yn y wers ysgrifennu.

Y mae'r plant erbyn hyn yn gwbl gyfarwydd â'r rhigwm, yn adnabod llawer o'r geiriau unigol ynddo, ac yn barod i'w ddarllen yn eu llyfrau.

Ceir rhestr o eiriau newydd pob gwers ar dudalennau 30 a 31. Fe wŷr pob athrawes sut i wneud defnydd ohoni.

